Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mr Mark James
Cyngor Sir Caerfyrddin
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 1JP

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
08442 640670
gofyn@olderpeoplewales.com

12 Gorffennaf 2011

Annwyl Mr James,

Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas: adborth a Hysbysiad Ysgrifenedig yn gofyn am ragor o wybodaeth erbyn 15 Awst 2011

Ar 14 Mawrth cyhoeddais fy Adolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru', a anfonwyd at Gyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Ceredigion ynghyd â llythyr cyflwyno a ffurflen ymateb. Yn ogystal â chyflwyno canfyddiadau'r Adolygiad, rhoddodd yr adroddiad ddeuddeg o Argymhellion. Cafodd Argymhelliad 5 ei gyfeirio at Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol ar y cyd. Gofynnais i Gyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Ceredigion ymateb i Argymhelliad 5 ar y cyd â Bwrdd Iechyd Hywel Dda, i amlinellu sut y bydden nhw'n cydymffurfio â'r argymhelliad.

Ers i ymateb Bwrdd Iechyd Hywel Dda ddod i law, mae fy nhîm a mi wedi asesu'r ymateb yn drylwyr. Rydyn ni wedi cael cymorth hefyd gan banel o gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan. Calondid i mi oedd yr ymatebion addawol a gawsom ac rwy'n teimlo bod llawer ohonyn nhw wedi dangos gwir awydd i wella profiad pobl hŷn yn yr ysbyty.

Mae Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007 yn datgan bod rhaid i'r wybodaeth a roddir imi gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Ceredigion fod yn ddigon imi benderfynu a gydymffurfir â'm hargymhellion i neu beidio, neu roi digon o esboniad pam na chydymffurfir ag argymhelliad.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn caniatáu imi anfon Hysbysiad Ysgrifenedig i ofyn am ragor o wybodaeth gan y cyrff hynny sydd heb fy narbwyllo eto y bydd fy argymhellion yn cael eu dilyn. Rwy'n ansicr a yw Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Ceredigion wedi cyfrannu at yr ymateb a anfonwyd gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda gan nad yw'r ymateb yn dweud hynny'n bendant ac nad oes gohebiaeth wedi dod i law oddi wrth yr un o'r cynghorau.

Gan hynny, does dim digon o wybodaeth wedi'i rhoi imi i'm sicrhau'n llawn y bydd buddiannau pobl hŷn yng Nghymru'n cael eu diogelu a'u hybu mewn perthynas ag Argymhelliad 5. Mae'r llythyr hwn yn Hysbysiad Ysgrifenedig i Gyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Ceredigion yn gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch Argymhelliad 5. Byddwch cystal ag ymateb i'r argymhelliad hwnnw ar y cyd â Bwrdd Iechyd Hywel Dda a hynny erbyn **dydd Llun 15 Awst am 5pm fan bellaf**. Mae Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi cael Hysbysiad Ysgrifenedig hefyd.

Mae'n ofynnol imi gadw cofrestr, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn cynnwys manylion yr argymhellion a chanlyniad unrhyw gamau pellach yr ydw i wedi'u cymryd, megis rhoi Hysbysiad Ysgrifenedig i Awdurdod Lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol penodol. Bydd y gofrestr ar ein gwefan ynghyd â'r ymatebion a anfonir atom. Bydd y gofrestr ar gael ar bapur hefyd os gwneir cais amdano.

Pan fyddaf yn fodlon bod gen i'r cyfan o'r wybodaeth angenrheidiol, bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod Argymhelliad 5 yn dod yn realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rhan hon o'r broses, mae croeso ichi gysylltu ag Anna Buchanan ar 02920 445034 neu anna.buchanan@olderpeoplewales.com.

Yn gywir,

Ruth Marks
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru